

Cyflwyniad - Prydain  
Fawr a Gogledd  
Iwerddon

# Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid

Mae'r ddogfen hon ar gyfer  
trysoryddion pleidiau cofrestredig  
ym Mhrydain Fawr a Gogledd  
Iwerddon sydd eisiau cyflwyniad i'w  
cyfrifoldebau.

## Cvnnwvs:

Cyflwyniad i'ch cyfrifoldebau

Cynnal manylion eich plaid

Cyfrifoldebau rhoddion a

Cyfrifoldebau cyfrifo blynyddol

Cyfrifoldebau gwariant ymgyrchu

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylech/dylid**' ar gyfer eitemau yr ystyriwn i fod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio gyda'r gyfraith.

## Ein hymdriniaeth o orfodi

Os nad ydych yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allech chi neu'ch sefydliad fod yn destun cosbau sifil neu droseddol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ymdriniaeth y Comisiwn o orfodi yn <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances>

# Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid

Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Trysoryddion pleidiau canolog a thrysoryddion unedau cyfrifo.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflwyniad i'ch prif gyfrifoldebau
- Cynnal manylion eich plaid
- Cyfrifoldebau rhoddion a benthyciadau
- Cyfrifoldebau cyfrifo blynyddol
- Cyfrifoldebau gwariant ymgyrchu
- Darfod dal swydd trysorydd

Dogfennau cysylltiedig:

- [Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol](#)
- [Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol](#)

# 2

## Crynodeb

Mae'n hanfodol ar gyfer democratiaeth iach fod pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr yn gallu datblygu polisi, ymgyrchu a chyfathrebu eu negeseuon i bleidleiswyr. Mae codi arian a chyllid pleidiau yn allweddol i hyn.

Fel trysorydd plaid gofrestrdig, rydych yn gyfrifol fod eich plaid yn cydymffurfio gyda'r rheolau ariannol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi amlinelliad syml o beth yw'ch cyfrifoldebau a ble gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth.

## Cyflwyniad

Mae bod yn drysorydd cofrestredig plaid wleidyddol yn gyfrifoldeb sylweddol. Chi sydd yn gyfrifol am gyllid eich plaid a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae'n ymddangos yn frawychus, ond trwy drefnu'n dda, cadw cofnodion trylwyr a gwybodaeth gyfoes o'r rheolau, gall fod yn rôl sy'n rhoi boddhad.

Mae'r canllawiau cyflwyniadol hyn yn esbonio eich cyfrifoldebau sylfaenol yn fras.

Mae ar gyfer trysoryddion pleidiau canolog a thrysoryddion unedau cyfrifo.

Rydych yn **drysorydd plaid ganolog** os ydych wedi'ch cofrestru gyda ni fel trysorydd ar gyfer:

- plaid heb unedau cyfrifo neu
- sefydliad canolog plaid gydag unedau cyfrifo

Rydych yn **drysorydd uned cyfrifo** os ydych wedi'ch penodi fel un gan eich plaid a bod eich manylion wedi'u rhoi i ni.

Uned cyfrifo yw adran o'r plaid sydd wedi'i chofrestru gyda ni fel bod yn gyfrifol am ei chyfrifon ariannol ei hun.

# 4

## Eich cyfrifoldebau

### Cynnal manylion eich plaid

Fel **trysorydd y blaid yn ganolog**, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym pan fo unrhyw un o'r pethau canlynol yn newid:

- enw neu gyfeiriad unrhyw swyddog y blaid sydd wedi cofrestru gyda ni, gan gynnwys swyddogion unedau cyfrifo
- cyfeiriad pencadlys y blaid neu unrhyw uned cyfrifo
- enw unrhyw uned cyfrifo

Mae'n hefyd rhaid i chi anfon cadarnhad blynyddol o fanylion eich plaid. Os na wnewch chi, mae gofyn i ni dynnu eich plaid oddi ar y gofrestr.

I gael rhagor o fanylion ar gynnal manylion eich plaid a'r dyddiadu olaf i ddweud wrthym am unrhyw newidiadau ewch i'n [gwefan](#).

### Rhoddion a benthyciadau

Fel **trysorydd y blaid ganolog** mae gennych gyfrifoldeb dros:

- Sicrhau bod unrhyw roddion a benthyciadau y mae eich plaid yn eu cael yn cael eu gwirio, eu cofnodi a'u hadrodd lle bo'n briodol.
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhoddion a'r benthyciadau hyn yn gallu cael eu derbyn.
- Adrodd rhai rhoddion a benthyciadau i ni, y Comisiwn Etholiadol.

Fel **trysorydd uned cyfrifo** nid ydych yn gyfrifol, yn unol â PPERA am ddelio gyda rhoddion a benthyciadau. Fodd bynnag, dylech wastad ddilyn gweithdrefnau eich plaid. Mae'n rhaid i chi hefyd ddarparu gwybodaeth berthnasol i drysorydd y blaid ganolog pan fo gofyn.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

- [Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol](#)
- [Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol](#)

## Cyfrifon blynyddol

Fel trysorydd y **blaid ganolog** neu **drysorydd uned cyfrifo** mae gennych gyfrifoldeb dros y canlynol:

- Cadw cofnodion clir a chywir o'ch cyfrifon i ddangos gwir safle ariannol eich plaid neu'ch uned cyfrifo.
- Cyflwyno eich cyfrifon blynyddol i ni.

Fel **trysorydd uned cyfrifo**, dim ond os yw'ch incwm neu'ch gwariant dros £25,000 y mae angen i chi gyflwyno eich cyfrifon i ni.

I gael rhagor o wybodaeth ar ddatganiadau cyfrifon, ewch i'n [gwefan](#).

### Pryd mae angen i chi gyflwyno'ch cyfrifon?

Ydy incwm/gwariant eich plaid/uned cyfrifo yn **£250k neu'n llai?**

Adrodd o fewn pedwar mis o ddiwedd eich blwyddyn ariannol.

Ydy incwm/gwariant eich plaid/uned cyfrifo **dros £250k?**

Adrodd o fewn chwe mis a saith diwrnod o ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda tystysrig archwilydd annibynnol.

# 6

## Gwariant ymgyrchu mewn etholiadau

Fel **trysorydd y blaid yn ganolog** rydych chi'n gyfrifol am:

- holl wariant ymgyrchu mewn etholiadau

Mae hyn yn cynnwys:

- awdurdodi gwariant ymgyrchu
- cadw cofnodion ac anfonebau/derbynebau o wariant ymgyrchu
- cyflwyno eich ffurflenni cofnodion gwariant, anfonebau/derbynebau ac adroddiad yr archwiliwr

Gallwch benodi dirprwy drysoryddion i'ch cynorthwyo gyda gwariant etholiadol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i chi os yw'r blaid yn sefyll mewn nifer o seddi. Mae'n rhaid i chi anfon [Ffurflen RP5](#) i gofrestru dirprwyon.

Nid yw gwariant ymgyrchu yn cynnwys treuliau unigol ymgeiswyr, sy'n gyfrifoldeb yr asiant etholiadol.

**Nid yw trysoryddion unedau cyfrifo** yn gyfrifol am wariant ymgyrchu pleidiau.



Os yw'ch plaid wedi cofrestru swyddog ymgyrchu gyda ni, nhw fydd yn gyfrifol am wariant ymgyrchu, ac nid y trysorydd.



### Pryd mae angen i chi anfon eich cofnod atom?

Gwariant ymgyrchu o 250k neu llai?



Cyflwynwch eich cofnod gwariant o fewn tri mis o ddiwrnod y pleidleisio.

Gwariant ymgyrchu o 250k neu fwy?



Cyflwynwch eich cofnod gwario o fewn chwe mis o ddiwrnod y pleidleisio, ynghyd â thystysgrif archwilydd annibynnol.



## Ymddiswyddo fel trysorydd

### Pleidiau canolog

Os ydych yn ymddiswyddo fel trysorydd plaid ganolog neu, am ba bynnag reswm, fod eich penodiad yn dod i ben, **arweinydd y blaid** fydd yn drysorydd dros dro hyd nes bod y Comisiwn wedi cael gwybod bod trysorydd wedi cael ei benodi.

Os mai'r un person yw arweinydd y blaid a'r trysorydd, yna bydd y swyddog enwebu yn cymryd cyfrifoldebau'r trysorydd.

Hyd nes y penodir trysorydd newydd, dyletswydd arweinydd y blaid yw gwirio bod rhoddion a benthyciadau a geir i'r blaid yn rhai a ganiateir a chynnal cofnodion cyfrifo'r blaid.

Mae gan y trysorydd dros dro 14 diwrnod yn dilyn y dyddiad y mae'r swydd yn wag i ddweud wrthym am y newidiadau i swyddogion cofrestredig.



Efallai y bydd eich plaid yn destun camau gorfodi os nad ydych yn ein hysbysu o unrhyw newidiadau i swyddogion eich plaid erbyn y terfyn o 14 diwrnod.

Gellir adrodd am newidiadau i swyddogion cofrestredig plaid gyda [ffurflen RP4](#).

### Unedau cyfrifo

Mae'n rhaid adrodd newidiadau i drysoryddion uned gyfrifo o fewn 14 diwrnod o'r newid. Mae'n rhaid i drysorydd y blaid ganolog adrodd am y newid hwn. Gellir gwneud hyn, drwy gwblhau [ffurflen RP3](#).

Yr ail swyddog cofrestredig ar gyfer yr uned cyfrifo sy'n gyfrifol am gynnal cofnodion cyfrifo hyd nes bod y Comisiwn wedi cael gwybod bod trysorydd newydd wedi'i benodi.

# 8

## Sut allwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y dogfennau yr ydym wedi awgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld yr holl ganllawiau a'r adnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw hi'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Cysylltwch â ni:

- Lloegr: 020 7271 0616  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- Yr Alban 0131 225 0200  
[infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- Cymru 029 2034 6800  
[infowales@electoralcommission.org.uk](mailto:infowales@electoralcommission.org.uk)
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020  
[infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)

Neu ewch i [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni:  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)